
# Our wild year
# Ein blwyddyn wyllt

Impact report | Adroddiad effaith

2021-22



Ymddiriedolaeth Natur
**Gogledd Cymru**
**North Wales**
Wildlife Trust



COVER © AMY LEWIS, PINE MARTEN © TERRY WHITTAKER 2020VISION

# Together, we can do it
# Gyda'n gilydd, gallwn gyflawni

This year has highlighted the complexity within which we live. Our reliance on distant countries for energy and our dependency on supply chains to provide timber are just two of the many visible relationships on which we depend. Ecological systems that provide us with fresh water, clean air and healthy soils are more complex, often invisible and more important. Their failure may go unnoticed until we wonder where the butterflies have gone, or why the curlew is silent. Protecting nature has never been more important: this report highlights the amazing work that we have achieved over the last year to do just this. We couldn't have done it without support from members, individuals and organisations that have donated money, provided grants or given their time. Wildlife really needs support; thank you so much for yours.

Mae'r flwyddyn yma wedi tynnu sylw at y cymhlethdod rydym yn byw ynddo. Mae ein dibyniaeth ar wledydd pell am ynni a'n dibyniaeth ar gadwyni cyflenwi i ddarparu pren yn ddau yn unig o'r nifer o berthnasoedd gweladwy rydym yn dibynnu arnynt. Mae systemau ecolegol sy'n darparu dŵr ffres, aer glân a phriddoedd iach i ni yn gymhlethach, yn aml yn anweledig ac yn bwysicach. Efallai na fyddwn yn sylwi ar eu methiant nes i ni feddwl i ble mae'r glöynnod byw wedi mynd, neu pam mae'r gylfinir yn dawel. Ni fu gwarchod byd natur erioed mor bwysig: mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y gwaith rhyfeddol rydym wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i wneud hyn. Ni fyddem wedi gallu ei wneud heb gefnogaeth gan aelodau, unigolion a sefydliadau sydd wedi rhoi arian, wedi darparu grantiau neu wedi rhoi o'u hamser. Mae gwir angen cefnogaeth ar fywyd gwyllt; diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth chi.





**Frances Cattanach,**
Chief Executive Officer / Prif Weithredwraig

**Howard Davies,** Chair / Cadeirydd














ALEXANDER MUSTARD 2020VISION, JON HAWKINS SURREY HILLS PHOTOGRAPHY, GARY JONES PHOTOGRAPHY, MARK HAMBLIN 2020VISION

# Our wild year

Some highlights from North Wales Wildlife Trust



## APRIL

Happy families! The Welsh Beaver Project, led by North Wales Wildlife Trust on behalf of all the Wildlife Trusts in Wales, achieved a significant milestone. Following on from the release of the male beaver and his son in late March, the mother was re-united with them at Montgomeryshire Wildlife Trust's enclosure within Cors Dyfi Nature Reserve.



## MAY

Our annual ringing of pied flycatchers at Coed Crafnant Nature Reserve took place, with thanks due to both staff and volunteers for their work. As well as recording many more females in nestboxes than in previous years, we were also able to confirm the presence of a red kite nest!



## JUNE

The full tern colony clutch count was conducted at Cemlyn Nature Reserve, recording 379 nests of common and Arctic terns. 2020 apart, these are the highest figures since 1982! (In 2020, Cemlyn had an influx of birds from the temporarily abandoned Skerries colony – thankfully since re-populated.)



## JULY

At Porth Diana Nature Reserve, our annual spotted rock-rose count returned an exceptional six-fold increase on last year's figures. Each individual bloom on this diminutive plant – the county flower of Anglesey – opens only once and only for a few hours; losing all its petals by evening.



## AUGUST

Summer is peak time for wildflower counting – and our attention turned to one of the key species for Cors Goch Nature Reserve: marsh gentian. 1,120 individual plants were counted – either flowering (or in bud) – not far short of the largest ever count of 1,214 in 1996.



## SEPTEMBER

We heard the sad news this month that, as expected, swifts have been officially red-listed in recognition of their continued decline over the last 25 years. The good news, however, is that our own swift-related work continues apace: we have met architects and developers to discuss better provision for nest sites; installed swift boxes throughout North Wales; and aim to work with local partners to establish a series of urban swift trails.

(left to right) All images © NWWT except 1. Laurie Campbell, 2. Richard Steele 2020Vision, 3. Tom Hibbert, 6. Tom Upton, 7. Ben Hall 2020Vision, 9. Gillian Day



## OCTOBER

As part of our 'Stop the Red Route' campaign, we led the sending of a letter to Lee Waters MS, Deputy Minister for Climate Change, signed by 19 environmental NGOs. We congratulated him on his decision to review all new proposed highway schemes in Wales; noted that the move is also welcomed by the Future Generations Commissioner; and expressed our satisfaction that addressing the climate and biodiversity emergencies had been prioritised.



## NOVEMBER

By the autumn, our 'Stand for Nature Wales' project, where we help young people across Wales learn about how wildlife-rich habitats and landscapes can capture more greenhouse gases to help us tackle climate change, had truly started to find its feet. This month alone, 140 school pupils and 45 youth groups attendees took part in our inspiring sessions.



## DECEMBER

Our hugely successful 'Our River Wellbeing' project came to an end, having exceeded just about every target it had been set. 200km of river bank had been cleared of invasive non-native species throughout the Dee catchment; whilst 137 people took part in training and 50 gained accredited qualifications. Congratulations to our staff, project partners and all the amazing volunteers!




## JANUARY

At Porth Trecastell, 40 people joined us to blow away any post-Christmas lethargy by participating in our annual 'Plast OFF!' beach clean. Each year, we bring together local communities to remove hundreds of kilograms of plastic and waste from our precious marine ecosystem – and hopefully inspire them to lead their own clean-ups in the months ahead.



## FEBRUARY

This month, we took stock of the amazing contribution volunteers make to looking after our nature reserves and other key wildlife sites. Our top sites this year were Gwaith Powdwr, Cors Goch, Aberduna, Rhiwledyn and Angel Bay – a staggering 1,290 days of time were given by some wonderful people on these places alone!



## MARCH

The Wildlife Trusts' Shoresearch programme is a UK-wide initiative that engages people with their local foreshore whilst collecting valuable, high-quality and robust data on the habitats and species present. We've been surveying sites all over North Wales – this month, we were at Llanfairfechan.


# Ein blwyddyn wyllt

## Rhai uchafbwyntiau gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru



### EBRILL

Hapus Dyrfa! Cyrhaeddodd Prosiect Afancod Cymru, dan arweiniad Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ar ran yr holl Ymddiriedolaethau Natur yng Nghymru, garreg filltir arwyddocaol. Yn dilyn rhyddhau'r afanc gwrywaidd a'i fab ddiwedd mis Mawrth, ailunwyd y fam â hwy yn safle Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn yng Ngwarchodfa Natur Cors Dyfi.



### MAI

Cynhaliwyd ein gwaith modrwyo blynyddol ar y gwybedog brith yng Ngwarchodfa Natur Coed Crafnant, gyda diolch i'r staff a'r gwirfoddolwyr am eu gwaith. Yn ogystal â chofnodi llawer mwy o fenywod mewn bocsys nythu nag yn ystod y blynyddoedd blaenorol, roeddem hefyd yn gallu cadarnhau presenoldeb nyth barcud coch!



### MEHEFIN

Cynhaliwyd y cyfrif llawn o boblogaeth y môr-wenoliaid yng Ngwarchodfa Natur Cemlyn, gan gofnodi 379 o nythod môr-wenoliaid cyffredin a môr-wenoliaid y Gogledd. Heb gynnwys 2020, dyma'r ffigur uchaf ers 1982! (Yn 2020, cafodd Cemlyn fewnlifiad o adar o boblogaeth Ynysoedd y Moelrhoniaid a adawyd dros dro – maent wedi dychwelyd yno ers hynny, diolch byth.)



### GORFFENNAF

Yng Ngwarchodfa Natur Porth Diana, gwelwyd cynnydd eithriadol yn ein cyfrif blynyddol o'r cor-rosyn rhuddfannog, gyda'r canlyniadau chwe gwaith yn fwy o gymharu â ffigurau'r llynedd. Mae pob blodyn unigol ar y planhigyn bychan hwn – blodyn sirol Ynys Môn – yn agor unwaith yn unig a dim ond am ychydig oriau, ac mae'n colli ei holl betalau erbyn y gyda'r nos.



### AWST

Mae'r haf yn amser brig ar gyfer cyfrif blodau gwyllt – a throdd ein sylw at un o rywogaethau allweddol Gwarchodfa Natur Cors Goch: crwynllys y gors. Cafodd 1,120 o blanhigion unigol eu cyfrif – naill ai'n blodeuo (neu'n flagur) – dim llawer llai na'r cyfrif mwyaf erioed o 1,214 yn 1996.



### MEDI

Clywsom y newyddion trist y mis yma bod y gwenoliaid duon, yn ôl y disgwyl, ar y rhestr goch yn swyddogol i gydnabod eu dirywiad parhaus dros y 25 mlynedd diwethaf. Y newyddion da, fodd bynnag, yw bod ein gwaith ni yn gysylltiedig â'r gwenoliaid duon yn parhau: rydym wedi cyfarfod â phenseiri a datblygwyr i drafod gwell darpariaeth ar gyfer safleoedd nythu; wedi gosod bocsys gwenoliaid duon ledled Gogledd Cymru; ac rydym yn anelu at weithio gyda phartneriaid lleol i sefydlu cyfres o lwybrau trefol i wenoliaid duon.

(chwith i'r dde) Pob delwedd © YNGC ond 1. Laurie Campbell, 2. Richard Steele 2020Vision, 3. Tom Hibbert, 6. Tom Upton, 7. Ben Hall 2020Vision, 9. Gillian Day



## HYDREF

Fel rhan o'n hymgyrch 'Stopio'r Llwybr Coch', fe wnaethom arwain y gwaith o anfon llythyr at Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wedi'i lofnodi gan 19 o sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol. Gwnaethom ei longyfarch ar ei benderfyniad i adolygu pob cynllun priffyrdd arfaethedig newydd yng Nghymru; nodi bod y symudiad hefyd yn cael ei groesawu gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol; a mynegi ein boddhad gyda'r ffaith bod mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth wedi'i flaenoriaethu.



## TACHWEDD

Erbyn yr hydref, roedd ein prosiect 'Sefyll dros Natur Cymru', lle rydym yn helpu pobl ifanc ledled Cymru i ddysgu am sut gall cynefinoedd a thirweddau sy'n llawn bywyd gwyllt ddal mwy o nwyon tŷ gwydr i'n helpu ni i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, wedi dechrau dod o hyd i'w draed. Y mis yma yn unig, cymerodd 140 o ddisgyblion ysgol a 45 o fynychwyr grwpiau ieuenctid ran yn ein sesiynau ysbrydoledig.



## RHAGFYR

Daeth ein prosiect hynod lwyddiannus 'Lles Ein Hafonydd' i ben, ar ôl rhagori ar bron bob targed a osodwyd iddo. Cafodd 200km o lannau afonydd eu clirio o rywogaethau estron ymledol ledled dalgylch y Ddyfrdwy a chymerodd 137 o bobl ran mewn hyfforddiant a 50 wedi ennill cymwysterau achrededig. Llongyfarchiadau i'n staff, partneriaid y prosiect a'r holl wirfoddolwyr anhygoel!




## IONAWR

Ym Mhorth Trecastell, ymunodd 40 o bobl â ni i gael gwared ar unrhyw syrthni ar ôl y Nadolig drwy gymryd rhan yn ein sesiwn glanhau traeth blynyddol, 'Plast OFF!'. Bob blwyddyn, rydyn ni'n dod â chymunedau lleol at ei gilydd i gael gwared ar gannoedd o gilogramau o blastig a gwastraff o'n hecosystem forol werthfawr – gan eu hysbrydoli gobeithio i arwain eu sesiynau glanhau eu hunain yn ystod y misoedd sydd i ddod.



## CHWEFROR

Y mis yma, fe wnaethom bwyso a mesur y cyfraniad anhygoel y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud i ofalu am ein gwarchodfeydd natur a safleoedd bywyd gwyllt allweddol eraill. Ein prif safleoedd eleni oedd Gwaith Powdwr, Cors Goch, Aberduna, Rhiwledyn a Bae Angel – cafwyd cyfanswm anhygoel o 1,290 o ddyddiau gan bobl wych yn y llefydd yma yn unig!



## MAWRTH

Mae rhaglen Shoresearch yr Ymddiriedolaethau Natur yn fenter ar gyfer y DU gyfan sy'n ymgysylltu pobl â'u blaendraeth lleol a hefyd mae'n casglu data gwerthfawr, cadarn o ansawdd uchel am y cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n bresennol. Rydym wedi bod yn arolygu safleoedd ar hyd a lled Gogledd Cymru – y mis yma, roeddem yn Llanfairfechan.



Spinnies Aberogwen Nature Reserve, near Bangor.

Gwarchodfa Natur Spinnies Aberogwen, ger Bangor.


© ALEXANDER MUSTARD 2020VISION

JONATHEN DAVID HARTY

Ymddiriedolaeth Natur
**Gogledd Cymru**
**North Wales**
Wildlife Trust

members
# 8,515
o aelodau

volunteers
# 452
o wirfoddolwyr




nature reserves
# 35
o warchodfeydd

Natural Partners (Businesses)
# 33
o Bartneriaid Naturiol (Busnes)

social media followers
# 29,411
o ddilynwyr cyfryngau cymdeithasol

# Connecting people and wildlife



# Cysylltu pobl a bywyd gwyllt

people gained **new skills** on our training courses

**136**

o bobl wedi dysgu **sgiliau newydd** ar ein cyrsiau hyfforddiant



Random Acts of Wildness were committed by people in our **30 Days Wild** campaign

**294,875**

o Weithredoedd Gwyllt wedi'u hymrwymo gan bobl yn ein hymgyrch **30 Diwrnod Gwyllt**



visits made to our **nature reserves**, where people enjoyed and found solace in wild places

**150,000+**

ymweliadau wedi cymryd lle i'n **gwarchodfeydd natur**, ble wnaeth pobl fwynhau a darganfod cysur mewn llefydd gwyllt

volunteer hours given by our 452 **volunteers**

**19,400**



o oriau gwirfoddol wedi'u cyfrannu gan ein 452 o **wirfoddolwyr**



people engaged with nature through our **visits** to schools and other groups

**5,800**

o bobi wedi ymwneud a byd natur drwy ein **hymweliadau** ni ag ysgolion a grwpiau eraill

people learnt more about wildlife at our **events**

**7,000+**

dysgwyd bobl fwy am fywyd gwyllt ar ein **digwyddiadau**

# Nature at the heart of education

Through our youth-led 'Stand for Nature Wales' project, we're helping secondary schools on Anglesey to improve their grounds for wildlife whilst giving pupils the opportunity to learn practical skills to help them live more sustainably. After a winter spent tree-planting and hedge-laying in all weathers, hundreds of young people have helped us to establish 'carbon-negative' community gardens at Ysgol David Hughes and Ysgol Gyfun Llangefni. These sites will now be used to teach local people about food production and how gardening in a wildlife-friendly way is better both for people and the planet.

Excitingly, Ysgol Gyfun Llangefni have also been selected as a pilot school for the new Curriculum for Wales. This has given us an opportunity to work with teachers to develop whole new lesson plans built around understanding climate change and how it relates to the work they're undertaking in their own shared garden. Our hope is that these sites will become models upon which other schools in Wales will build: demonstrating how school grounds can be transformed into community assets which support nature-based learning and store more carbon.




ISTOCK PHOTOLIBRARY

# Byd natur wrth galon addysg

Drwy ein prosiect 'Sefyll dros Natur Cymru' a arweinir gan bobl ifanc, rydym yn helpu ysgolion uwchradd ar Ynys Môn i wella eu tiroedd ar gyfer bywyd gwyllt a hefyd yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddysgu sgiliau ymarferol i'w helpu i fyw yn fwy cynaliadwy. Ar ôl treulio gaeaf yn plannu coed ac yn plygu gwrychoedd ym mhob tywydd, mae cannoedd o bobl ifanc wedi ein helpu ni i sefydlu gerddi cymunedol 'carbon-negyddol' yn Ysgol David Hughes ac Ysgol Gyfun Llangefni. Bydd y safleoedd hyn nawr yn cael eu defnyddio i ddysgu pobl leol am gynhyrchu bwyd a sut mae garddio mewn ffordd sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt yn well i bobl ac i'r blaned.

Yn gyffrous, mae Ysgol Gyfun Llangefni wedi cael ei dewis hefyd fel ysgol beilot ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae hyn wedi rhoi cyfle i ni weithio gydag athrawon i ddatblygu cynlluniau gwersi cwbl newydd sy'n seiliedig ar ddeall newid yn yr hinsawdd a sut mae'n berthnasol i'r gwaith maent yn ei wneud yn eu gardd a rennir eu hunain. Ein gobaith ni yw y bydd y safleoedd hyn yn dod yn fodelau y bydd ysgolion eraill yng Nghymru yn adeiladu arnynt: gan ddangos sut gellir trawsnewid tiroedd ysgolion yn asedau cymunedol sy'n cefnogi dysgu seiliedig ar natur ac yn storio mwy o garbon.

# Searching our shores

The intertidal area (the space that's revealed as the tide goes out) is one of the most treacherous places to live on the planet. With consistent and often large differences in moisture, heat and salinity, as well as crashing wave movements, the species living here must be adapted to constant change.

The Wildlife Trusts' 'Shoresearch' programme is a UK-wide initiative that engages people with their local foreshore whilst collecting valuable, high-quality data on the habitats and species present – and changes witnessed over much longer periods than those between tides. During 2021-22, we were able to use its citizen science surveys to support the monitoring of Wales's Marine Protected Areas: assessing the distribution of invasive non-native species; documenting movements of species due to climate change; and improving the understanding and prospects of marine species in general.

Funded by the Welsh Government as part of its MPA Network Management Action Plan, a team of keen Shoresearchers participated in our training programme before heading out. Elaine Blanchard sums up her experience nicely:

"It's just so marvellous – I can't believe it's taken me until now to actually see it all properly! All those years roaming the beach and looking but not seeing ..."



# Chwilio ein glannau

Mae'r ardal rynglanwol (y gofod sy'n dod i'r golwg wrth i'r llanw fynd allan) yn un o'r llefydd mwyaf peryglus i fyw ynddo ar y blaned. Gyda gwahaniaethau cyson a mawr yn aml mewn lleithder, gwres a halltedd, yn ogystal â thonnau gwyllt yn torri, rhaid i'r rhywogaethau sy'n byw yma addasu i newid cyson.

Mae rhaglen 'Shoresearch' yr Ymddiriedolaethau Natur yn fenter ar gyfer y DU gyfan sy'n ymgysylltu pobl â'u blaendraeth lleol a hefyd yn casglu data gwerthfawr o ansawdd uchel am y cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n bresennol – a'r newidiadau a welwyd dros gyfnodau llawer hwy na'r rhai rhwng y llanw. Yn ystod 2021-22, aethom ati i ddefnyddio ein harolygon gwyddoniaeth y dinesydd i gefnogi'r gwaith o fonitro Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru: asesu dosbarthiad rhywogaethau estron ymledol; cofnodi symudiadau rhywogaethau oherwydd newid yn yr hinsawdd; a gwella'r ddealltwriaeth o rywogaethau morol yn gyffredinol a'u rhagolygon.

Wedi'i chyllido gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i Chynllun Gweithredu Rheoli Rhwydwaith AGM, cymerodd tîm brwd Shoresearch ran yn ein rhaglen hyfforddi cyn mynd allan. Mae Elaine Blanchard yn crynhoi ei phrofiad i'r dim:


"Mae mor wych – dydw i ddim yn gallu credu ei fod wedi cymryd tan nawr i mi weld y cyfan yn iawn! Yr holl flynyddoedd hynny yn crwydro'r traeth ac yn edrych ond heb weld ..."

# Looking after wildlife and wild places

# Edrych ar ôl bywyd gwyllt a llefydd gwyllt



RHUN JONES



Area of land cared for in our **nature reserves**
**790ha**
Ardal o dir a ofalwyd am yn ein **gwarchodfeydd natur**
**Landowners** advised
**226**
o **berchnogion tir** a gynghorwyd
Area of land we **provided advice on**
**244ha**
o arwynebedd tir rydym wedi **ddarparu cyngor** yn ei gylch
Projects promoting natural **flood management**
**4**
Prosiectau yn hyrwyddo **rheolaeth llifogydd** naturiol
Area of wildlife **habitat created**
**88ha**
Ardal o **gynefin** fywyd gwyllt wedi ei greu
Area of land in our 3 **Living Landscapes**
**25,600ha**
o arwynebedd ein 3 **prosiect Tirwedd Fyw**

# Biodiversity means business

2021-22 saw the completion of our 'Sustainable Management Scheme'-funded project on the Wrexham Industrial Estate, where we've been the making the landscape more habitable to wildlife, more accessible for people and more attractive to businesses. In total, 34 businesses and landowners worked with us to improve their grounds for nature and people alike.

Encouraging the switch from regularly mown grass to wildflower meadows was a key achievement, with over 15 hectares of colourful annual strips and hay-meadows now catching the eye around many parts of the estate. Meanwhile, to encourage workers to spend time outdoors during their breaks, we've installed benches and picnic tables at 11 sites and opened over 1.2km of trails: mostly permissive paths, which anyone can use.

If you're in the area, why not stop for a few minutes at the Hoya Nature Space? This beautiful site provides opportunities to explore wildflower meadows, scrub, an orchard and a growing woodland – all within a wholly industrial landscape!




LIN CUMMINS

# Bioamrywiaeth a busnes

Yn 2021-22 cwblhawyd ein prosiect a ariannwyd gan y 'Cynllun Rheolaeth Gynaliadwy' ar Stad Ddiwydiannol Wrecsam, lle'r ydym wedi bod yn gwneud y dirwedd yn haws byw ynddi i fywyd gwyllt, yn fwy hygyrch i bobl ac yn fwy deniadol i fusnesau. Gweithiodd cyfanswm o 34 o fusnesau a pherchnogion tir gyda ni i wella eu tiroedd ar gyfer natur a phobl fel ei gilydd.

Roedd annog y newid o laswellt sy'n cael ei dorri'n rheolaidd i ddolydd blodau gwyllt yn gyflawniad allweddol, gyda mwy na 15 hectar o leiniau blynyddol lliwgar a dolydd gwair bellach yn dal y llygad o amgylch sawl rhan o'r stad. Yn y cyfamser, er mwyn annog gweithwyr i dreulio amser yn yr awyr agored yn ystod eu hegwyliau, rydym wedi gosod meinciau a byrddau picnic mewn 11 safle ac wedi agor mwy nag 1.2km o lwybrau: llwybrau caniataol yn bennaf, y gall unrhyw un eu defnyddio.

Os ydych chi yn yr ardal, beth am stopio am ychydig funudau yng Ngofod Natur Hoya? Mae'r safle hardd yma yn rhoi cyfleoedd i archwilio dolydd blodau gwyllt, prysgwydd, perllan a choetir sy'n tyfu – i gyd o fewn tirwedd gwbl ddiwydiannol!



# Cemlyn 'terns' 50

The 50th anniversary of Cemlyn as a Wildlife Trust nature reserve saw things return to a post-Covid near-normal, with our wardens based back on site and supported by a small, dedicated team of volunteers. Together, they watched over a successful season, with over 1,600 Sandwich terns fledged from more than 1,900 breeding pairs.

Alongside the Sandwich terns – for whom Cemlyn is the only nesting colony in Wales – there were near-record numbers of common and Arctic terns. At approximately 265 and 114 pairs respectively, these were the highest figures for any single 'normal' year since 1982. Although roseate terns were present on multiple occasions during the season and there was a possible hybrid pair with a common tern, breeding was not observed.

Black-headed gulls also had a successful season with a total of 262 breeding pairs, despite raven attacks in late April. A highlight of the season was a vagrant elegant tern – which stayed for 27 days and was visited by around 2,000 people! All of these successes were well received on the wardens' Facebook page, supported by a series of online blogs looking at the history of the nature reserve.

# Cemlyn yn 50

Wrth ddathlu 50 mlynedd ers sefydlu Cemlyn fel gwarchodfa natur gan yr Ymddiriedolaeth Natur, dychwelodd pethau i fod yn normal bron ar ôl Covid, gyda'n wardeiniaid wedi'u lleoli yn ôl ar y safle gyda chefnogaeth tîm bach, ymroddedig o wirfoddolwyr. Gyda'i gilydd, buont yn goruchwylio tymor llwyddiannus, gyda mwy na 1,600 o gywion môr-wenoliaid pigddu wedi hedfan y nyth o fwy na 1,900 o barau magu.



Ochr yn ochr â'r môr-wenoliaid pigddu – sydd â'u hunig boblogaeth nythu yng Nghymru yng Nghemlyn – roedd y niferoedd ar gyfer y môr-wenoliaid cyffredin a môr-wenoliaid y Gogledd yn record bron. Gyda thua 265 o barau o fôr-wenoliaid cyffredin a 114 o barau o fôr-wenoliaid y Gogledd, y rhain oedd y ffigurau uchaf ar gyfer unrhyw flwyddyn 'normal' unigol ers 1982. Er bod môr-wenoliaid gwridog yn bresennol sawl gwaith yn ystod y tymor a bod pâr hybrid posibl gyda môr-wennol gyffredin, ni welwyd unrhyw fagu.

Cafodd y gwylanod penddu dymor llwyddiannus hefyd gyda chyfanswm o 262 o barau magu, er gwaethaf ymosodiadau gan gigfrain ddiwedd mis Ebrill. Uchafbwynt y tymor oedd môr-wennol gain grwydrol – a arhosodd am 27 diwrnod ac a gafodd ymweliad gan tua 2,000 o bobl! Cafodd yr holl lwyddiannau hyn dderbyniad da ar dudalen Facebook y wardeiniaid, a ategwyd gan gyfres o flogiau ar-lein yn edrych ar hanes y warchodfa natur.

# Our Natural Partners
# Ein Partneriad Naturiol

## We're proud to work for wildlife with businesses throughout North Wales.

Our Natural Partners help us work for a wilder North Wales – whether through sponsoring our projects; creating valuable wildlife habitats on their own land; or sharing their subject-specific expertise. Together, we're demonstrating that biodiversity can mean business!

## Rydym yn falch o weithio dros fywyd gwyllt gyda busnesau ledled Gogledd Cymru.

Mae ein Partneriaid Natur yn ein helpu i weithio dros Ogledd Cymru wylltach - drwy noddi ein prosiectau; creu cynefinoedd bywyd gwyllt gwerthfawr ar eu tir eu hunain; neu rannu eu harbenigedd am bynciau penodol. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n dangos y gall bioamrywiaeth olygu busnes!



ATLAS COPCO


Clover

# Leave a Legacy
# Gadewch Waddol

## Help protect local wildlife and wild places for future generations by leaving a gift in your Will.

Once you have provided for your loved ones, remembering North Wales Wildlife Trust in your Will helps keep your memories of our wildlife alive for future generations. **22%** of our voluntary income comes from gifts in Wills which enables us to continue to protect the wildlife and wild places of North Wales.

**Every gift** in every Will, however large or small, **makes a difference**.

**Would you like a free Will?** We have entered into a number of partnerships that enable our supporters to write their Wills for free – without any obligations whatsoever. Please visit **northwaleswildlifetrust.org.uk/legacy** or contact us for more information.

## Helpwch i ddiogelu bywyd gwyllt a llefydd gwyllt lleol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy adael rhodd yn eich Ewyllys.

Ar ôl i chi ddarparu ar gyfer eich anwyliaid, mae cofio am Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn eich Ewyllys yn helpu i gadw 'ch atgofion o'n bywyd gwyllt yn fyw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae **22%** o'n hincwm gwirfoddol yn deillio o roddion mewn Ewyllysiau ac mae hyn yn ein galluogi ni i barhau i amddiffyn y bywyd gwyllt a'r llefydd gwyllt yn Ngogledd Cymru.

Mae **pob rhodd** ym mhob Ewyllys, waeth pa mor fawr neu fach, **yn gwneud gwahaniaeth**.

**Hoffech chi gael Ewyllys am ddim?** Rydym wedi ymrwymo i nifer o bartneriaethau sy'n galluogi ein cefnogwyr i ysgrifennu eu Hewyllys am ddim - heb unrhyw rwymedigaethau o gwbl. Ewch i **northwaleswildlifetrust.org.uk/gwaddol** neu cysylltwch â ni i gael mwy o wybodaeth.



© ISTOCK PHOTOLIBRARY

# Our supporters
# Ein cefnogwyr ni


© CHRIS ROBBINS




© JON HAWKINS, SURREY HILLS PHOTOGRAPHY

People support us by being **Trust members**, giving donations, leaving **gifts in Wills**, visiting our shops or web-shop and offering services.

**Volunteers** provide varied and valuable skills; running events, practical conservation work, wildlife surveys, site wardening, marine work, fundraising, giving professional advice and office administration.

Our **funders** use grants to help us fulfil our objectives whilst contributing to their own goals.

Funds from our subsidiaries, **Enfys Ecology** and **NWWT Trading**, provide valuable unrestricted income.

**Our staff** are skilled and highly motivated to act on our supporters' behalf in the interest of wildlife, often going beyond the call of duty.

Mae pobl yn ein cefnogi ni drwy fod yn **aelodau o'r Ymddiriedolaeth**, cyfrannu rhoddion, **gadael rhoddion mewn Ewyllysiau**, ymweld â'n siopau ni neu ein siop ar y we, a chynnig gwasanaethau.

Mae **gwirfoddolwyr** yn darparu sgiliau amrywiol a gwerthfawr; cynnal digwyddiadau, gwaith cadwraeth ymarferol, arolygon ar fywyd gwyllt, wardeiniaid safleoedd, gwaith morol, codi arian, rhoi cyngor proffesiynol a gweinyddu swyddfeydd.

Defnyddir grantiau gan ein **noddwyr** i'n helpu ni gyflawni ein hamcanion tra byddent hefyd yn cyfrannu at noda eu hunan.

Mae cyllid gan ein his-gwmnïau, **Enfys Ecology** ac **NWWT Trading** yn darparu incwm digyfyngiad gwerthfawr.

**Mae ein staff** yn fedrus ac yn hynod frwd i weithredu ar ran ein cefnogwyr ni er budd bywyd gwyllt, gan fynd yr ail filltir yn aml.

# A wilder future ...

***"We need a new approach over the coming years: making our lives wilder and ensuring a green recovery. We all need nature more than ever – and, when we succeed, we'll have wildlife-rich landscapes that lock away carbon and provide local nature for people to enjoy."***

Frances Cattanach, Chief Executive, North Wales Wildlife Trust

We are living through an ecological and climate emergency. To turn things around, we need new and ambitious targets. That is why The Wildlife Trusts are calling for at least 30% of our land and sea to be connected and protected for nature's recovery by 2030. Evidence suggests that **30% is the bare minimum that nature needs to start recovering** – but, as it stands, we are far short of that figure. With the help of others, we want to make more space for nature so that it can become abundant once more, giving our struggling wildlife a chance to recover. We will continue to simultaneously tackle climate change and restore our beautiful wild places, whether through managing huge peatlands locking up carbon in their soils to campaigning for healthy marine environments storing it in muddy sediments on the sea floor.

By being part of our mission for nature's recovery, you are already making a real difference to wildlife and our natural world. Nature has given us so much – now it's our turn to give back, together.

© ALEXANDER MUSTARD/2020VISION

# Dyfodol gwylltach ...


***"Mae arnom angen dull newydd o weithio yn ystod y blynyddoedd i ddod: gwneud ein bywydau'n wylltach a sicrhau adferiad gwyrdd. Mae angen natur ar bob un ohonom ni yn fwy nag erioed - a, phan fyddwn yn llwyddo, bydd gennym dirweddau llawn bywyd gwyllt sy'n cloi carbon ac yn darparu natur leol i bobl ei mwynhau."***

Frances Cattanach, Prif Weithredwraig, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru


Rydym yn byw drwy argyfwng ecolegol a hinsawdd. I wyrdroi pethau, mae arnom angen targedau newydd ac uchelgeisiol. Dyma pam mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn galw am gysylltu a diogelu o leiaf 30% o'n tir a'n môr ar gyfer adferiad natur erbyn 2030. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai **30% yw'r lleiafswm y mae natur ei angen er mwyn dechrau adfer** - ond, fel y mae ar hyn o bryd, rydym yn llawer is na'r ffigur hwnnw. Gyda chymorth eraill, rydym eisiau gwneud mwy o le i fyd natur fel y gall ddod yn doreithiog unwaith eto, gan roi cyfle i'n bywyd gwyllt sy'n ei chael yn anodd adfer. Byddwn yn parhau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ar yr un pryd ag adfer ein llefydd gwyllt hardd, drwy reoli mawndiroedd enfawr sy'n cloi carbon yn eu priddoedd ac ymgyrchu dros amgylcheddau morol iach sy'n ei storio mewn gwaddodion mwdlyd ar wely'r môr.

Drwy fod yn rhan o'n cenhadaeth ar gyfer adferiad natur, rydych chi eisoes yn gwneud byd o wahaniaeth i fywyd gwyllt a'n byd naturiol. Mae natur wedi rhoi cymaint i ni – nawr ein tro ni yw rhoi yn ôl, gyda'n gilydd.

# Our finances




| | £ |
|---|---|
| Investment and Rents | 45,191 |
| Donations, Membership, Legacies and Fundraising | 512,988 |
| Commercial Trading | 588,663 |
| Grants | 2,591,067 |
| **TOTAL** | **3,737,909** |




| | £ |
|---|---|
| Conservation | 1,732,295 |
| Education | 858,647 |
| Operating costs | 654,711 |
| **TOTAL** | **3,245,653** |

**STATEMENT BY TRUSTEES**

This financial information was extracted from the draft annual accounts relating to the statement of financial activities and the balance sheet. At the time of printing (August 2022), the annual audit was still underway and there may be some adjustments before the final figures are published. The audited figures will be presented to members at North Wales Wildlife Trust's AGM in October 2022 and any significant changes will be highlighted at that time. Once approved, the accounts will be formally submitted to The Charity Commission and Companies House. The full annual accounts and the trustees' annual report will be published on our website as soon as they are available, with paper copies available from our head office in Bangor. Our Treasurer, Ian Dunsire, is happy to answer any questions that you may have: hbsian@aol.com / 01766 238417.

## STATEMENT OF CONSOLIDATED FINANCIAL ACTIVITIES for year ended 31 March 2022

| | 2022 £ | 2021 £ |
|---|---|---|
| **Incoming resources** | | |
| Incoming resources from generated funds | | |
| Voluntary income | 495,030 | 289,823 |
| Activities for generating funds | 606,621 | 536,185 |
| Investment income | 45,191 | 45,567 |
| | **1,146,842** | **871,575** |
| Incoming resources from charitable activities | 2,591,067 | 2,250,924 |
| **Total incoming resources** | **3,737,909** | **3,122,499** |
| **Resources expended** | | |
| Fundraising cost | 654,711 | 503,591 |
| Charitable expenditure | 2,590,942 | 2,050,900 |
| **Total resources expended** | **3,245,653** | **2,554,291** |
| Net movement in funds before transfers | 492,256 | 568,208 |
| Gains/(losses) on revaluations of investment assets | - | - |
| **Net movements in funds** | **492,256** | **568,208** |
| **Reconciliation of funds** | | |
| Total funds brought forward | 2,536,881 | 1,968,673 |
| **Total funds carried forward** | **3,029,137** | **2,536,881** |

## CONSOLIDATED BALANCE SHEET as at 31 March 2022

| | | 2022 | 2021 |
|---|---|---|---|
| **Fixed assets** | Heritage assets | 581,770 | 581,770 |
| | Tangible assets | 40,605 | 40,008 |
| | Investments | 170,000 | 170,000 |
| | **Total fixed assets** | **792,375** | **791,778** |
| **Current assets** | Stock | 6,350 | 10,556 |
| | Debtors | 990,543 | 685,445 |
| | Cash at bank and in hand | 2,149,738 | 1,536,644 |
| | **Total current assets** | **3,146,631** | **2,232,655** |
| **Creditors:** amounts falling due within one year | | -909,869 | -487,552 |
| | **Net current assets** | **2,236,762** | **1,745,103** |
| | **NET ASSETS** | **3,029,137** | **2,536,881** |

# Financial overview

The Wildlife Trust faced another difficult financial year as society in general started to emerge from Covid-related restrictions. However, thanks to the hard work, flexibility and efficiency of our staff, plus the generous support from our membership, we were able to record another respectable set of results.

Turnover for the Group grew to over £3.7 million, including donations and legacies that nearly doubled to £495,000 and membership income growing to over £202,000 – thank you to all who contributed. As usual, much of our new income came from grants for specific projects and, as a result, we were able to spend more than £1.7 million on conservation work and a creditable £858,000 on education, despite face-to-face contact being restricted for much of the period in question. At the end of the year, we were left with a welcome surplus of £492,000 to carry forward to 2022-23.

Close attention is given to understanding the potential impact on cash flow when taking on new work, to make sure that we are not exposing the Trust to any unwelcome shortages.

Prudent management, and prompt invoicing when claiming funds in arrears, has allowed our cash reserves to grow to a very healthy £2.1 million across the Trust and subsidiaries. Enfys Ecology contributed a very welcome £123,000 – a very good result in the circumstances – whilst NWWT Trading was again unable to open the usual retail outlets and, consequently, made another loss.

I hope that we can all look forward to a more 'normal' year ahead and, once again, thank you for your ongoing support.

**Ian Dunsire, Treasurer & Company Secretary**



# Honorary officers


**President**
Dafydd Elis-Thomas

**Vice Presidents**
Geoff Radford, Dr Goronwy Wynne, Pippa Bonner

**Chairman**
Howard Davies


**Treasurer**
Ian Dunsire

**Honorary Secretary**
James Robertson


**Company Secretary**
Ian Dunsire

**Trustees**
Gillian Coates, David Davies, Frankie Hobro, Simon Mills, Bethan Beech, Gina Mills, Alasdair Forman, Ian Dunsire, Howard Davies, James Robertson

# Ein cyllid




| | £ |
|---|---|
| Buddsoddiad a Rhenti | 45,191 |
| Rhoddion, Aelodaeth, Cymynroddion a Chodi Arian | 512,988 |
| Masnachu Masnachol | 588,663 |
| Grantiau | 2,591,067 |
| **CYFANSWM** | **3,737,909** |




| | £ |
|---|---|
| Cadwraeth | 1,732,295 |
| Addysg | 858,647 |
| Costau gweithredu | 654,711 |
| **CYFANSWM** | **3,245,653** |

### DATGANIAD GAN YR YMDDIRIEDOLWYR

Tynnwyd yr wybodaeth ariannol hon o'r cyfrifon blynyddol drafft yn ymwneud â'r datganiad o weithgareddau ariannol a'r fantolen. Adeg argraffu (Awst 2022), roedd yr archwiliad blynyddol yn parhau i fynd rhagddo ac efallai y bydd rhai addasiadau cyn i'r ffigurau terfynol gael eu cyhoeddi. Bydd y ffigurau wedi'u harchwilio yn cael eu cyflwyno i'r aelodau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ym mis Hydref 2022 a bydd unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu nodi bryd hynny. Unwaith y cânt eu cymeradwyo, bydd y cyfrifon yn cael eu cyflwyno'n ffurfiol i'r Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau. Bydd y cyfrifon blynyddol llawn ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant ar gael, gyda chopïau papur ar gael o'n prif swyddfa ym Mangor. Mae ein Trysorydd, Ian Dunsire, yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi: hbsian@aol.com / 01766 23841

## DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL CYFNERTHEDIG ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

| | 2022 £ | 2021 £ |
|---|---|---|
| **Adnoddau sy'n dod i mewn** | | |
| Adnoddau sy'n dod i mewn o gronfeydd a gynhyrchir | | |
| Incwm gwirfoddol | 495,030 | 289,823 |
| Gweithgareddau ar gyfer cynhyrchu arian | 606,621 | 536,185 |
| Incwm buddsoddi | 45,191 | 45,567 |
| | **1,146,842** | **871,575** |
| Adnoddau sy'n dod i mewn o weithgareddau elusennol | 2,591,067 | 2,250,924 |
| **Cyfanswm yr adnoddau sy'n dod i mewn** | **3,737,909** | **3,122,499** |
| **Adnoddau a wariwyd** | | |
| Cost codi arian | 654,711 | 503,591 |
| Gwariant elusennol | 2,590,942 | 2,050,900 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd** | **3,245,653** | **2,554,291** |
| Symudiad net mewn cronfeydd cyn trosglwyddo | 492,256 | 568,208 |
| Enillion / (colledion) ar ailwerthuso asedau buddsoddi | - | - |
| **Symudiadau net mewn cronfeydd** | **492,256** | **568,208** |
| **Cysoni cronfeydd** | | |
| Cyfanswm yr arian a ddygwyd ymlaen | 2,536,881 | 1,968,673 |
| **Cyfanswm yr arian a gariwyd ymlaen** | **3,029,137** | **2,536,881** |

## MANTOLEN GYFNERTHEDIG ar 31 Mawrth 2022

| | | 2022 £ | 2021 £ |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | Asedau treftadaeth | 581,770 | 581,770 |
| | Asedau diriaethol | 40,605 | 40,008 |
| | Buddsoddiadau | 170,000 | 170,000 |
| | **Cyfanswm yr asedau sefydlog** | **792,375** | **791,778** |
| **Asedau cyfredol** | Stoc | 6,350 | 10,556 |
| | Dyledwyr | 990,543 | 685,445 |
| | Arian yn y banc ac mewn llaw | 2,149,738 | 1,536,644 |
| | **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | **3,146,631** | **2,232,655** |
| **Credydwyr:** symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn | | -909,869 | -487,552 |
| | **Asedau cyfredol net** | **2,236,762** | **1,745,103** |
| | **ASEDAU NET** | **3,029,137** | **2,536,881** |

# Trosolwg ariannol

Roedd yr Ymddiriedolaeth Natur yn wynebu blwyddyn ariannol anodd arall wrth i gymdeithas yn gyffredinol ddechrau dod allan o gyfyngiadau cysylltiedig â Covid. Fodd bynnag, diolch i waith caled, hyblygrwydd ac effeithlonrwydd ein staff, ynghyd â chefnogaeth hael ein haelodaeth, llwyddwyd i gofnodi cyfres barchus arall o ganlyniadau.

Cynyddodd trosiant y Grŵp i fwy na £3.7 miliwn, gan gynnwys rhoddion ac ewyllysiau a ddyblodd bron i £495,000 ac incwm aelodaeth yn cynyddu i fwy na £202,000 – diolch i bawb a gyfrannodd. Yn ôl yr arfer, daeth llawer o'n hincwm newydd o grantiau ar gyfer prosiectau penodol ac, o ganlyniad, roedd modd i ni wario mwy na £1.7 miliwn ar waith cadwraeth ac £858,000 cymeradwy ar addysg, er gwaetha'r cyfyngu ar gyswllt wyneb yn wyneb am lawer o'r cyfnod dan sylw. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gennym warged i'w groesawu o £492,000 i'w gario ymlaen i 2022-23.

Rhoddir sylw manwl i ddeall yr effaith bosibl ar lif arian wrth ymgymryd â gwaith newydd, i wneud yn siŵr nad ydym yn gwneud yr Ymddiriedolaeth yn agored i unrhyw brinder digroeso. Mae rheolaeth ddarbodus, ac anfonebu prydlon wrth hawlio arian mewn ôl-ddyledion, wedi galluogi ein cronfeydd arian parod wrth gefn i dyfu i £2.1 miliwn iach iawn ar draws yr Ymddiriedolaeth a'r is-gwmnïau. Cyfrannodd Enfys Ecology £123,000 oedd i'w groesawu'n fawr – canlyniad da iawn o dan yr amgylchiadau – oherwydd unwaith eto nid oedd modd i NWWT Trading agor y siopau adwerthu arferol ac, o ganlyniad, gwnaeth golled arall.

Gobeithio y gallwn ni i gyd edrych ymlaen at flwyddyn fwy 'normal' o'n blaenau ac, unwaith eto, diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.

**Ian Dunsire, Trysorydd & Ysgrifennydd y Cwmni**



© STEVE WATERHOUSE

# Swyddogion anrhydeddus


**Llywydd**
Dafydd Elis-Thomas

**Is Lywyddion**
Geoff Radford, Dr Goronwy Wynne, Pippa Bonner


**Cadeirydd**
Howard Davies

**Trysorydd**
Ian Dunsire

**Ysgrifennydd Anrhydeddus**
James Robertson

**Ysgrifennydd y Cwmni**
Ian Dunsire

**Ymddiriedolwyr**
Gillian Coates, David Davies, Frankie Hobro, Simon Mills, Bethan Beech, Gina Mills, Alasdair Forman, Ian Dunsire, Howard Davies, James Robertson




Ymddiriedolaeth Natur
**Gogledd Cymru**
**North Wales**
Wildlife Trust

# Make wildlife part of your story ...

- Become a member
- Volunteer your time
- Support our campaigns
- Remember us in your Will

# Gwnewch fywyd gwyllt yn rhan o'ch stori ...

- Dod yn aelod
- Gwirfoddoli eich amser
- Cefnogi ein hymgyrchoedd
- Cofio amdanom yn eich Ewyllys

**northwaleswildlifetrust.org.uk**

North Wales Wildlife Trust / Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
Llys Garth, Garth Road / Ffordd Garth,
Bangor, Gwynedd LL57 2RT

01248 351541
info@northwaleswildlifetrust.org.uk

Registered Charity No. / Rhif Cofrestru'r Elusen 230772